COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 IONAWR 2025

Yn bresennol: Y Cadeirydd Annest Smith.

Y Cynghorwyr: Sarah Hughes, Hefin Jones, Keith O'Brien, Enid Roberts, Idwal Williams, Aranli Thomas.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)

Ymddiheuriadau A. Huw Jones , Richard Davies, Richard Davies, Iwan Jones, Llywarch Davies, Aron Roberts. Elfed Roberts (Cynghorydd Sir).

## 2425 - COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y 4ydd o Ragfyr awygrymodd y Cynghorydd Keith O'Brien ein bod yn cynnwys Mr/Miss/Ms o flaen unigolion sydd ddim yn aelodau o'r Cyngor wrth ysgrifennu'r cofnodion. Cytunwyd a chadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir.

## 2426 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddoddwyd y clerc nad oedd PC Elliw Roberts yn medru mynychu'r cyfarfod a daeth PC Dion Elliot i'r cyfarfod. Adroddodd nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Dim adroddiad pellach.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Mynychodd PC Dion Elliot y cyfarfod. Adroddwyd ei fod wedi cysylltu a'Go Safe' a na chafwyd ymateb, aeth i safle 'Strategic road casualty' a atgoffwyd mai'r maen prawf i gael unrhyw newid o ran cyflymder yw 4 damwain ddifrifol o fewn 100metr dros 3 mlynedd. Adroddwyd mai dim ond 2 oedd wedi bod yn ôl y data. Roedd adolygiad am gael ei wneud ar yr A4212 ar gyfer pob gwrthdrawiad. Adroddodd y Cynghorydd Keith O'Brien nad oedd arwydd yn parhau i fod ym Mronaber i derfynu'r cyflymder cenedlaethol a bod hyn yn achosi pryder mawr. Awgrymodd y Cynghorydd Aranli Thomas y byddem yn ceisio edrych arno fel achos o lygredd swn. Cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn am asesiad llygredd swn i adran Iechyd a'r amgylchedd.

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi mynychu cyfarfod ar y 7fed o Ionawr a bod llythyr wedi dod i law gan gronfa'r Loteri yn nodi eu bod am ariannu'r prosiect ac i raglen Cymru wledig ar gyfer y neuadd. Dywedwyd y byddai'r swm yn £122,537 dros ddwy flynedd i'r prosiect neuadd i'r dyfodol. Cafwyd cyfarfod i gytuno ar delerau sy'n dod ynglwm ar cais. Adroddwyd y bydd angen dod o hyd i gydlynydd i wneud cais am ragor o'r grantiau i wneud y swm yn fwy sylweddol. Gofynodd y Cynghorydd Idwal Williams am gyfeiriadau, dyddiad geni a e-bost y cynghorwyr newydd er mwyn eu cofrestru fel ymddiredolwyr y neuadd.Adroddwyd y bydd cyfarfod ym mis Chwerfror a bod y dyddiad i'w gadarnhau. Gofynodd y Cynghorydd Idwal Williams i bob Cynghorydd fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn ac adroddwyd y bydd yn rhoi y dyddiad i ni yng nghyfarfod mis Chwefror.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddwyd gan y Swyddog Ariannol ei bod wedi bod mewn cysylltiad â Mr Rhys Llwyd a'i fod wedi gofyn am fwy o fanylion gan Mr Guto Tomos. Adroddwyd bod y Swyddog Arianol wedi gyrru e-bost i Mr Guto Tomos a nad oedd wedi ymateb hyd yma. Adroddodd y Swyddog Ariannol bod tyrchod daear yn parhau i fod ym Mynwent Pencefn a'u bod yn cael eu trin.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddwyd y byddem yn cael diweddariad gan y Cynghorydd Elfed Roberts yn y cyfarfod mis nesaf.

2229(7) - Lloches Bws Ty Gwyn – Adroddwyd bod y Clerc wedi derbyn ymateb gan Mrs Rhian Williams yn nodi y byddai'r gwaith o osod y lloches yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r flwyddyn.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi derbyn ateb gan Evan Thomas a'i Feibion yn dweud y byddent yn fodlon gwneud y gwaith ond bydd angen i'r Cyngor archebu y meinciau. Byddent hefyd angen cael sgwrs gyda Mr David Owen cyn dechrau'r gwaith. Adroddwyd y byddem yn trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Clerc fod Mr Rhys Davies wedi cynnig dyddiadau i gyfarfod a'r pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Keith O'Brien, Hefin Jones a Sarah Hughes ynghyd ar Clerc yn cyfarfod am 3yh ar y 31ain o Ionawr yn y Cross Foxes, Trawsfynydd.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddodd y Cynghorydd Keith O'Brien nad oedd datblygiad pellach.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y clerc ei bod wedi e-bostio Cyngor Gwynedd i adrodd bod y safle'n achosi 'statutory nuisance', ond na chafwyd ymateb i'r e-bost. Cytunwyd i ail yrru'r e-bost.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi derbyn ymateb gan GWE Cambrian yn nodi eu bod yn parhau i weithio ar y safle we.

2379(4) Bryn y Gofeb – Adroddodd y Swyddog Ariannol ei bod wedi derbyn pris gan gwmni Tir a Choed o £1023.37 gyda TAW ar ei ben am ail osod y pyst metal. Cytunwyd derbyn y pris a gofyn i gwmni Tir a Choed i wneud y gwaith.

2409(1) – Bont Afon Prysor - Adroddodd y Clerc bod Adrian Williams wedi cyfeirio'r mater at Beiriannydd Strwythurol i asesu'r safle gyda'r coed helyg ond nid oedd diweddariad pellach. Cytunwyd i ail yrru'r e-bost am y trydydd tro am ddiweddariad.

2409(2) – Cerbydau y Maes Parcio - Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu a'r Cyngor a gofyn iddynt edrych ar y mater fel achos o 'statutory nuisance'. Ni dderbynwyd ymateb, cytunwyd i ail yrru'r e-bost.

2409(3) - Arwyddion yr A470/Cyffordd A4212 - Adroddwyd bod y Clerc wedi rhoi galwad ffôn i Mr Merfyn Morris o'r adran cefnffyrdd ac adroddodd bod yr arwyddion wedi cael eu harchebu a dylai'r gwaith fod wedi cael ei wneud o fewn yr wythnosau nesaf. Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod y canllaw ar waelod yr A4212 wedi torri. Cytunwyd i gysylltu â Mr Gwyn Evans o'r adran llwybrau Meirionydd am hyn.

2409(6) - Llwybr Cyhoeddus rhwng Bryn y Gath a Phant Glas – Adroddwyd bod swyddog wedi archwilio'r safle fis diwethaf yn sgil yr adroddiad a yrrwyd gan y Cyngor. Cadarnhawyd fod y goeden oedd wedi disgyn dros y llwybr yn gyfrifoldeb i'r tirfeddiannwr, adroddwyd gan y Cadeirydd Annest Smith mai'r tirfeiddianwr oedd Mr Rhodri Jones Glanllafar. Adroddwyd nad oedd pont wedi bod yn y lleoliad yma ers sawl blwyddyn, a gyda adnoddau yn dynn yn y Cyngor roedd yn annhebygol y gallent roi pont newydd yn y lleoliad yma ar hyn o bryd. Adroddwyd bod y llwybr troed hwn wedi ei adnabod fel un categori isel ac felly ni ellid ei flaenoriaethu ar gyfer adnoddau yn unol a pholisi hawliau tramwy cyhoeddus mabwysiedig y Cyngor.

2416(3) - Ffordd y Pentref - Adroddwyd bod cyflwr ffordd y pentref yn parhau i fod yn ofnadwy i gerbydau a cerddwyr. Cytunwyd ail i gysylltu gydag Adrian Williams o Gyngor Gwynedd am y trydydd tro.

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn - Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi trafod gyda a Mr B Williams er mwyn iddo farcio y llwybrau ar y map yr oedd yn ei dorri er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei anfon allan ar gyfer tender. Penderfynwyd y byddem yn gyrru am brisiau dechrau Chwefror er mwyn eu trafod ym mis Mawrth.

**2427 – GOHEBIAETH**

(1) Rhybudd Cyngor Gwynedd - Ffordd o Ben Y Stryd i Bwynt Dwyreiniol Pentref Gwyliau Trawsfynydd, Bronaber - (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2025 - Rhybudd fod Cyngor Gwynedd wedi gwneud Gorchymyn sydd yn gwahardd unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd fynd mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd y darn hwnnw o'r Ffordd o Ben y Stryd i bwynt dwyreiniol Pentref Gwyliau Trawsfynydd, Bronaber o bwynt ger y gyffodd i'r de o'r eiddo a adwaenir fel Pen y Stryd gan deithio mewn cyfeiriad gorllewinol hyd at bwynt ger y gylchffordd o gwmpas Pentref Gwyliau Trawsfynydd, Bronaber. Mae angen y Gorchymyn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith gosod twythell ffibr newydd.
Daw'r Gorchymyn i rym ar yr 22ain o Ionawr 2025 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod na fydd yn fwy na thri mis neu hyd nes y cwblheir y gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd, pa un bynnag fyddo gyntaf. Ar hyn o bryd disgwylir y gellid cwblhau'r gwaith o fewn tua 30 diwrnod.

## 2428 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a cadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

(2) Adroddwyd bod y Cynghorydd Llywarch Davies wedi e-bostio'r Swyddog Ariannol gyda'r manylion canlynol am Lys Ednowain:
Roedd anfondebau ar yr eiddo Llys Ednowain o'r 31/07/23 i'r 31/03/24 a hefyd o'r 01/04/2024 i'r 15/09/2024. Gofynwyd i'r clerc yrru e-bost i Gyngor Gwynedd yn Cadarnhau mai Traws-Newid oedd yn parhau i fod a rheolaeth o'r eiddo hyd at ddiwrnod y gwerthiant (15/09/2024) a nid y Cyngor Cymuned - yn dilyn hyn dywedwyd y bydd yr anfondebau cael eu hail greu yn enw Traws-Newid. Cadarnhaeodd Mr Aled Williams os oedd goriadau'r eiddo yn parhau i i fod ym meddiant Traws-Newid , y bydd hyn yn ddigonol fel prawf. Adroddwyd unwaith y bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn y wybodaeth gywir yna gall Cyngor Gwynedd ail greu'r anfonebau i Traws-Newid a rhoi consesiwn cyfradd busnes o 100% ar yr anfonebau. Yn dilyn hyn ni fyddai neb yn ddyledus i dalu'r anfoneb.

(3) Adroddwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn rhoi galwad ffôn i gwmni G.L.Jones er mwyn holi am bris i trwsio'r gadwen ar y bont yng nghae chwarae Tŷ Llwyd.

## 2429- MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts bod defaid o amgylch y pentref a'u bod wedi bod yn pori yng ngardd Salem cytunwyd i gysylltu â adran Iechyd a'r Amgylchedd.

(2) Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts bod y wal rhwng Mynwent Llwyncrwn a Mynwent Salem wedi dymchwel a wedi difrodi carreg fedd Mr Rhagfyrun Jones. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn cysylltu â Breese Gwyndaf er mwyn ceisio darganfod pwy yw perchenog y wal. Awgrymodd y Cynghorydd Idwal Williams y dylem werthu'r cerryg. Penderfynwyd y byddem yn aros tan y cyfarfod nesaf i wneud penderfyniad.

(3) Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod sefyllfa cau'r ffordd yn ddiweddar wedi codi problemau mawr am yr ail waith . Adroddwyd bod dynes oedranus yn y pentref wedi methu apwyntiad gan nadoedd arwydd wedi ei roi yn y safle bws. Cytunwyd i yrru e-bost i Gyngor Gwynedd yn nodi fod y sefyllfa yma'n annerbyniol a datgan bod angen gosod arwyddion os oes unrhyw beth o'r fath yn digwydd eto yn y safleoedd bws.

(4) Adroddodd y Cynghorydd Sarah Hughes bod cefn Bro Prysor o rif 7-12 yn hel dŵr mawr. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Sarah Hughes yn gyrru lluniau i'r clerc er mwyn eu gyrru ymlaen i Adra.

Nid oedd materion ar gyfer y cyfarfod nesaf.

## 2430 - ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

(1) Grwp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd - Adroddodd y Cynghorydd Keith O'Brien bod pwerdŷ Maentwrog yn dod yn ôl dan reolaeth Safle Trawsfynydd.

**CYFARFOD NESAF 5fed o Chwefror 2025.**